# Adroddiad Arolygu

**Kiddies Corner - Llandudno**

**35 Ffordd Bryniau**
**Llandudno**
**LL30 2EZ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/12/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Kiddies Corner - Llandudno

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Kiddies Corner Day Nursery Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 38 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Cliciwch neu pwyswch yma i gynnwys testun.<br>25 Hydref 2023 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Cliciwch neu pwyswch yma i gynnwys testun.<br>Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, ac ni wnaethom ystyried gofal a datblygiad, yr amgylchedd nac arweinyddiaeth a rheolaeth yn llawn y tro hwn.

Mae'r plant yn dewis sut i dreulio eu hamser. Maent yn mwynhau eu profiadau ac yn teimlo'n hapus ac wedi setlo. Gall y plant gael gafael ar rai cyfarpar sy'n eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau.

Mae'r staff yn hyrwyddo ffordd iach o fyw. Mae newidiadau i'r gweithdrefnau cysgu yn sicrhau bod y plant yn ddiogel. Mae'r staff yn olrhain datblygiad y plant ac yn dechrau newid y ffordd maent yn cynllunio sydd o fudd i'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gwella'r asesiadau risg i sicrhau eu bod yn gallu eu rhoi ar waith yn effeithiol. Mae peryglon bellach yn cael eu rheoli'n briodol a gwnaed gwelliannau i'r amgylchedd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gwneud y newidiadau roedd angen eu gwneud i sicrhau bod y rheoliadau yn cael eu cyrraedd. Mae'r gwelliannau pellach a gynlluniwyd yn dangos ymrwymiad parhaus i wneud newidiadau cadarnhaol.

## Llesiant

Mae'r plant yn symud o gwmpas yr ystafell yn rhydd, gan ddewis ble a beth maen nhw eisiau chwarae ag ef. Cânt rai cyfleoedd i ddefnyddio'r ardal awyr agored yn rhydd os byddant yn dymuno chwarae yn y fan hon. Er enghraifft, aeth grŵp o blant cyn oed ysgol allan i chwarae gyda'r blociau adeiladu mawr. Caiff y plant rai cyfleoedd i fynegi eu hunain a'u dymuniadau. Er enghraifft, wrth ddewis pa gân i'w chanu.

Mae'r plant wedi setlo ac maent yn mwynhau bod yn bresennol. Maent yn gyfarwydd â'r staff, sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel a chyfforddus. Mae'r plant yn ymwybodol o'r arferion, sy'n sicrhau eu bod yn deall beth fydd yn digwydd nesaf. Er enghraifft, roedd y plant yn awyddus iawn i roi gwybod i ni y byddent yn cael amser cylch ar ôl iddynt frwsio eu dannedd.

Mae'r plant yn mwynhau bod yng nghwmni eraill. Maent yn chwarae â'u cyfoedion yn hapus, gan sgwrsio a rhannu cyfarpar fel y mynnant. Roedd y plant yn hapus i chwarae gyda'i gilydd gan gynnwys rhannu llyfrau a chwarae fel arch-arwyr wrth iddynt wisgo clogynnau.

Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn dangos mwynhad wrth chwarae. Er enghraifft, roedd plentyn yn clapio wrth iddo ddod o hyd i'r darnau pos a oedd yn paru a'u rhoi gyda'i gilydd. Cafodd y plant rai cyfleoedd i ddilyn eu diddordebau drwy'r cyfarpar sydd ar gael.

Caiff y plant gyfleoedd i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau drwy'r profiadau sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, rhoddir lle a chyfarpar i'r babanod i'w galluogi i ddatblygu eu sgiliau corfforol wrth iddynt gropian o gwmpas a thynnu eu hunain ar eu traed er mwyn rhoi cynnig ar gerdded. Caiff y plant rai cyfleoedd i fod yn annibynnol gan eu bod yn defnyddio cyfleusterau fel y toiledau eu hunain a gallant gael gafael ar eitemau fel ffedogau pan fyddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau crefft.

## Gofal a Datblygiad

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r plant yn rhoi systemau effeithiol ar waith i helpu i atal germau rhag lledaenu. Maent yn annog arferion golchi dwylo ac yn sicrhau bod y byrddau yn cael eu glanhau cyn bwyta. Mae'r newidiadau i'r trefniadau cysgu yn helpu'r staff i gadw'r plant yn ddiogel. Mae cael aelod o staff yn yr ystafell bob amser a chael matiau cysgu yn hytrach na chael y plant yn eu cadeiriau gwthio yn helpu i sicrhau bod y plant yn gallu gadael yr adeilad yn ddiogel ac yn brydlon mewn argyfwng.

Mae'r staff yn rhoi newidiadau cadarnhaol ar waith yn y ffordd maent yn olrhain ac yn cofnodi cynnydd y plant. Maent wedi rhoi Ap newydd ar waith i gofnodi'r arsylwadau y maent yn eu gwneud ar y plant ac i nodi eu camau nesaf. Caiff y rhain wedyn eu rhannu mewn modd amserol â'r rhieni. Mae cynlluniau ar waith i newid y broses i sicrhau ei bod yn galluogi'r plant i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau ac i ystyried eu diddordebau. Roedd y staff yn frwdfrydig am y newidiadau a gynlluniwyd ac roeddent yn deall sut y byddent o fudd i'r plant. Fodd bynnag, dim ond yn y camau cynnar mae hyn ac nid yw ar waith yn llawn eto. Mae'r staff yn dechrau rhoi ystyriaeth i'r cyfarpar a'r gweithgareddau y maent yn eu darparu er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn addas ac yn ysbrydoli'r plant i ddysgu.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cyflwyno ffordd newydd o rannu asesiadau risg i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn hollol ymwybodol o'r peryglon a nodwyd a sut y cânt eu rheoli. Mae'r rhain bob amser ar gael ar ddyfais ffôn er mwyn iddynt allu cael golwg arnynt ar unrhyw adeg.

Mae'r peryglon a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol wedi cael eu dileu neu eu rheoli'n effeithiol fel nad yw'r plant yn wynebu risg o niwed. Mae gan yr ardal awyr agored sydd o flaen yr ystafell cyn oed ysgol ddecin newydd, felly mae'n ardal addas i'r plant. Nid yw'r ardal ar waelod yr ardal awyr agored yn cael ei defnyddio gan nad yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicr ei bod yn ddiogel. Mae'r materion blaenorol â'r cyflenwad dŵr yn nhoiledau'r staff bellach wedi cael eu datrys felly nid yw'r staff yn gorfod defnyddio cyfleusterau amgen erbyn hyn.

Mae'r ystafell cyn oed ysgol wedi cael ei hagor ar ôl cael gwared ar wal fewnol a gosod lloriau newydd. Mae hyn wedi gwneud yr ystafell yn fwy ac yn fwy dymunol.

Mae rhywfaint o'r cyfarpar yn briodol ar gyfer oedrannau a chamau datblygu'r plant ac mae'r mwyafrif ohonynt mewn cyflwr da ac yn ysbrydoli'r plant i chwarae a dysgu. Fodd bynnag, gellid parhau i wneud gwelliannau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gwneud gwelliannau yn dilyn yr arolygiad blaenorol i sicrhau bod y rheoliadau yn cael eu cyflawni. Gwnaed newidiadau i'r trefniadau cysgu a'r ffordd y caiff peryglon eu rheoli i sicrhau bod y plant yn ddiogel. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi nodi'r angen am arweinwyr ym mhob ystafell, fel bod aelod o staff yn gallu goruchwylio'r hyn sy'n digwydd. Mae hyfforddiant wedi cael ei drefnu ar gyfer y staff er mwyn eu cefnogi yn y gwaith o gyflwyno strategaeth gynllunio newydd, fel bod y plant yn gallu dilyn eu diddordebau, a chael ysbrydoliaeth i ddysgu ac i ddatblygu eu sgiliau.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 20 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau ei fod yn gwneud darpariaeth briodol i ofalu am y plant a'u goruchwylio. | Cyflawnwyd |
| 25 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod yr holl beryglon yn cael eu nodi a'u cynnal yn effeithiol. | Cyflawnwyd |
| 14 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau eu bod yn ystyried y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 28 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau ei fod wedi casglu dau eirda cyn caniatáu i'r staff ddechrau gweithio a gofalu am y plant. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Parhau i ddatblygu trefniadau cynllunio ac asesu i adlewyrchu'r cwricwlwm newydd i Gymru. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| **Arferion Gorau** |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Trefnu'r ystafell ddosbarth awyr agored a'r ystafelloedd cyn ysgol er mwyn rhoi mwy o ddewis i'r plant ac i wella eu cyfleoedd dysgu. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 31/01/2024